Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

**Cyfres newydd, rhif 57** **Hydref 2021**



## *Adlewyrchiadau'r dyfroedd tawel*

*Baddonau Doña Maria de Padilla, Palas Alcazar, Sevilla*

*(llun: Wikimedia – CC BY-SA 2.0 )*

# Os

I chwaraewyr Scrabble, gair bach i'w ddefnyddio pan fydd llythrennau dros ben ar ddiwedd gêm yw 'Os'. Dim ond ychwanegu llythyren a chael sgôr o ddau farc. Well na dim, mae'n siŵr!

Ond, o feddwl ymhellach, pa air arall sydd â chymaint o bosibiliadau? Drws yw 'os' i fyd o bosibiliadau a choridorau o ddewisiadau.

Daw'r gair 'os' weithiau fel rhybudd i ni. 'Os gwnei di', neu 'os na wnei di ... ' yna fe fydd yna ganlyniadau ... Gall pob un ohonom lenwi'r bylchau gan ein bod wedi clywed yr 'os' rhybuddiol sawl tro yn ystod ein hoes.

Weithiau gall 'os' fod yn arweiniad i fygythiad: 'Os ddwedi di hynna eto ar goedd, fe fydda i'n mynd â thi i'r llys am enllib.'

Gall 'os' fod yn air o anogaeth: 'Os gweithi di'n galed, fe wnei di'n dda yn dy arholiadau/ dy yrfa.' Yna mae 'os' ein breuddwydion. Os gwnawn ni briodi, os cawn ni blant, os awn ni ar ein gwyliau i'r haul. I'r claf, gall 'os' gynnig dyfodol pan oedd popeth yn edrych yn dywyll. Os gwnei di golli pwysau, os gwnei di stopio smocio, os gwnei di fwy o ymarfer corff, os gwnei di gymryd y moddion ....

Am air bychan, bach, mae 'os' yn medru cario llawer iawn o bwysau trwm.

***

Yn ystod yr haf eleni gwelsom luniau ar y teledu o fforestydd yng ngwlad Groeg yn llosgi'n wyllt mewn tanau enfawr oedd yn difetha popeth o'u blaenau. A gwelwyd golygfeydd tebyg ar draws y byd – yn yr Amerig, yn fforestydd glaw'r Amazon a hyd yn oed yn yr Arctig. A gwelwyd lluniau a dynnwyd o'r gofod o'n cartref ni, y blaned werdd sy'n goferu o fywyd, yn llosgi'n fygythiol, apocalyptaidd.

Ar yr un pryd, draw yn yr Almaen ac yng ngwlad Belg, gwelwyd llifeiriant nerthol na welwyd mo'i fath oedd yn ysgubo ceir a lorïau fel teganau plastig o flaen rhuthr y cenlli.

Clywn yn aml ryw sylw tebyg i hyn: 'Mae'r tywydd wedi mynd yn od, a'r tymhorau wedi eu cawlio'n lân.' Nid oes unrhyw amheuaeth bellach nad canlyniadau gweithgarwch dynol yw'r cynhesu byd-eang yr ydym yn ei brofi.

Y gwir yw hyn: ‘os’ na fydd arweinwyr y gwledydd yn ymrwymo yng Nghynhadledd COP 26 i leihau allyriadau carbon, ac yn dewis symud mewn camau breision tuag at ddulliau cynaliadwy o fyw, bydd bywyd ar y ddaear yn fwyfwy anodd i’n plant a’n hwyrion. Bydd tlodi, newyn, sychder, stormydd a rhyfel, a phoblogaethau’n mudo am na allant fyw yn eu mamwlad oherwydd y cynnydd yn y tymheredd, yn anorfod.

Ond ‘os’ medrwn wynebu’r her a dysgu byw mewn ffyrdd mwy cynaliadwy, bydd modd i’r blaned, i fywyd ar y blaned, ddechrau iacháu ei hun. Dilynwch y ddolen ganlynol at ddeiseb ar lein Cymorth Cristnogol sy’n galw am gyfiawnder i’r hinsawdd: https://www.christianaid.org.uk/get-involved/campaigns/climate-justice-2021

***

Gerllaw Caffi Cletwr yn Nhre’r-ddôl gwelais lechen ar fur hen gapel Wesle’r pentre. Nid oedd yr ysgrif arno’n rhwydd i’w darllen gan ei fod yn reit uchel uwchlaw’r ffordd. A dyma’r geiriad ar y plac:

> O’r ardal hon yr haenodd Humphrey Jones y Diwygiwr
> ac yn y capel y cychwynnodd Diwygiad 1859
> Ymostyngodd y bobl Ceisiasant yr Arglwydd
> Gwrandawodd Duw o’r nefoedd ac iachaodd eu gwlad hwy.

A minnau’n wynebu’r capel, a phrysurdeb moto-beics a thrafnidiaeth swnllyd yn rhuthro heibio ar yr A487, daeth ‘os’ addewidion yr Arglwydd fel y dysgais y geiriau gyntaf ym Meibl William Morgan i’m tanio drachefn:

> ‘Os fy mhobl, y rhai y gelwir fy enw arnynt, a ymostyngant, ac a weddïant, ac a geisiant fy wyneb, ac a droant o’u ffyrdd drygionus: yna y gwrandawaf o’r nefoedd, ac y maddeuaf iddynt eu pechodau, ac yr iachâf eu gwlad hwynt.’
>
> (2 Cronicl 7:14)

A dyna fo’r ‘Os’ bach heriol a gobeithiol hwnnw eto yn herio’n presennol a’n dyfodol.

*Watcyn James*

**Manylion Cyswllt y Gweinidog:**
Y Parchedig Ddr R. Watcyn James
Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth,
SY23 3LZ
01970 880615
ebost: watcyn.james@ebcpcw.cymru

## GOLUD: Byw gyda Dementia

*Trysori ffydd a bywyd y rhai sy'n byw â dementia i'w galluogi i barhau i addoli a chynnal eu ffydd yn Iesu.*

Yn ystod y Gymanfa Gyffredinol ym mis Medi lansiwyd cynllun arbennig gan Is-bwyllgor y Chwiorydd, Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Prif ffocws GOLUD fydd cynnig ymateb i anghenion ffydd a gofal aelodau eglwysig sydd ar sbectrwm o gyflwr dementia, ynghyd â'u gofalwyr, trwy ddatblygu ac addasu adnoddau Beiblaidd at ddiben oedfaon a defosiwn personol – i ennyn cysur a gobaith.

Bydd hefyd yn codi ymwybyddiaeth am ddementia, trwy gynnig sesiynau Ffrindiau Dementia i aelodau eglwysig. Y bwriad yw rhannu canllawiau ac arferion da am sut i hybu amgylchedd dementia-gefnogol o fewn cymuned yr eglwys. Ceir gwybodaeth am weithgareddau cefnogol ac ymarferol sy'n hyrwyddo lles y rhai sy'n byw â dementia a'u gofalwyr o fewn cymuned leol y capel, e.e. mewn caffi neu ardd gof.

Bydd tudalen GOLUD ar wefan EBC a hefyd ar Facebook i gyfeirio pobl at asiantaethau arbenigol sy'n darparu gwybodaeth a chyngor priodol.

'Fel pobl sydd wedi eu creu gan Dduw, fe'n cedwir yn ei gof. Nid yw Duw'n gadael i ni fynd ac felly rydym yn parhau i fodoli, hyd yn oed pan fyddwn ni ein hunain wedi anghofio popeth, gan gynnwys Duw!' (*Living with Alzheimer's – a love story*, Robin Thomson)

Am fanylion pellach, ewch i: https://www.ebcpcw.cymru/cy/golud/

# Tudalen y Plant

**Darllenwch stori'r ffermwr yn hau'r had (Marc 4:1–20) ac yna rhowch gylch am y gair cywir bob tro:**



Rhoi hadau yn y ddaear er mwyn i blanhigion dyfu
(a) caregog (b) ffermwr (c) llwybr (ch) hau

Rhywbeth bach, caled sy'n gallu tyfu'n blanhigyn newydd
(a) pridd (b) carreg (c) hedyn (ch) gwreiddiau



Ffordd i bobl gerdded arni
(a) llwybr (b) hau (c) caregog (ch) pridd

Creaduriaid sydd â phig a chynffon ac sy'n gallu hedfan
(a) ffermwyr (b) moch (c) adar (ch) athrawon



Planhigion sydd â phigau miniog
(a) gwreiddiau (b) drain (c) dail (ch) caregog

Rhan uchaf y ddaear – mae'r ffermwr yn ei aredig
(a) pridd (b) caregog (c) hau (ch) llwybr



Y darn o blanhigyn sy'n tyfu yn y ddaear
(a) pridd (b) caregog (c) gwreiddiau (ch) deilen

**Gweddi**

**Diolch i ti am y byd,**
**Diolch am ein bwyd bob pryd,**
**Diolch am yr haul a'r glaw,**
**Diolch, Dduw, am bopeth ddaw. Amen.**



**Bedydd yn Rehoboth**

Ddechrau mis Awst cynhaliwyd gwasanaeth bedydd Lowri Menna yng nghapel Rehoboth, Taliesin. Merch i Eifion a Sarah Jenkins, Wileirog, a chwaer i Elinor a Leusa yw Menna. Llongyfarchwn y teulu a dymunwn fendith Duw arnynt i'r dyfodol. Roedd yn braf gweld cynifer wedi medru dod ynghyd a hynny o dan amodau Covid. Diolch i'r swyddogion am eu gofal wrth baratoi ar gyfer yr achlysur.

I ddibenion tynnu llun yn unig y tynnwyd mygydau!

## Seion

Yn yr oedfa fore Sul, 5 Medi, roedd llawenydd mawr wrth i'r Parchedig Watcyn James weinyddu'r ordinhad o fedydd ar un o blant yr eglwys, sef Emrys Ifan Evans, Fferm Pendre, Llanfihangel-y-Creuddyn. Mab i Bethan a Tom Evans, a brawd i ddwy chwaer hŷn, Meia ac Elsa, yw Emrys Ifan. Braf oedd cael aelodau'r teulu o ochr y ddau riant yn bresennol i gefnogi'r teulu ar ddiwrnod braf o haf bach Mihangel.

Diolch yn fawr i Watcyn am ei gyflwyniad hynod o addas i'r holl blant oedd yno ac am neges amserol a bendithiol iawn.



Llongyfarchiadau hefyd i'r teulu ar eu llwyddiant yn un o safleoedd prosiectau arddangos ac arloesi Cyswllt Ffermio yn gwneud y defnydd gorau o borfa. Ar 18 Awst ymwelodd Lesley Griffiths, Gweinidog Materion Gwledig Llywodraeth Cymru, â'r fferm.

Digon o waith i Emrys Ifan yn y dyfodol.

## Yr Arglwydd Elystan-Morgan

Ym marwolaeth yr Arglwydd Elystan-Morgan ar 7 Gorffennaf yn 88 oed, ar ôl cystudd hir, collodd Cymru ŵr mawr.

Elystan oedd arwr gwleidyddol fy llencyndod: cofiaf yn dda berfformiad tanbaid ac angerddol ganddo mewn dadl deledu pan safai fel ymgeisydd Plaid Cymru yn 1959 yn etholaeth gyfagos Wrecsam. Fe'm hysbrydolwyd ganddo i sefyll fel ymgeisydd y Blaid mewn ffug etholiad yn Ysgol Ramadeg (dra Seisnigedig) Llangollen – ac, er syndod imi, ennill! Bûm wedyn yn ymgyrchu drosto pan safodd ym Meirionnydd yn 1964. Mewn dyddiau pan oedd cyfarfodydd gwleidyddol yn dal yn eu bri, fe'i cofiaf fel areithiwr heb ei ail, a gyflwynai ei ddadleuon a'i argyhoeddiadau mewn iaith goeth, a'i lif a'i gyfaredd yr un boed yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ond i raddau helaeth ffigur a edmygwn o hirbell oedd y gwleidydd ifanc dawnus; fe adwaenwn Alwen – a ddaeth yn briod iddo – o ardal gyfagos Carrog yn well.

Ddegawdau yn ddiweddarach – ar ôl symud i dreflan y Dole ar gyrion Bow Street a dod yn gymydog agos iddo, yn gyd-aelod yng Nghapel y Garn ac am ychydig flynyddoedd ar derfyn ei oes yn gyd-flaenor ag ef – y deuthum i wir adnabod Elystan. Ar aelwyd Carregafon wrth fwynhau ei groeso a 'rhoi'r byd yn ei le' (chwedl yntau) weithiau fe drafodem droeon ei yrfa wleidyddol; mentrais gyfaddef wrtho imi nid yn unig ganfasio o'i blaid ym Meirion ond hefyd yn ei erbyn pan safodd dros Lafur ym Môn yn 1979. Y mae gwleidyddiaeth yn bwysig, ond y mae hefyd, wrth gwrs, bethau anhraethol bwysicach.

Soniais am gynhysgaeth ieithyddol Elystan. Mewn cylchoedd lle'r oedd gafael ar iaith yn anhepgor – gwleidyddiaeth a'r gyfraith a'r farnwriaeth – y bu'n gweithredu'n broffesiynol, a Saesneg oedd prif iaith y cylchoedd hynny. Ond mewn teyrnged iddo fe soniodd y gohebydd gwleidyddol Vaughan Roderick yn dra phriodol am loywder ei Gymraeg ('Cymraeg perffaith'). Fe'i magwyd ar aelwyd hynod lengar, a'i dad, Dewi Morgan, yn Fardd Cenedlaethol ac yn gyfaill i feirdd megis T. Gwynn Jones a Gwenallt. Ar ben magwraeth felly meithrinwyd doniau ieithyddol Elystan hefyd gan ei fagwraeth grefyddol. Yn amlder goludog ei eirfa a chadernid ei gystrawen, Cymraeg William Morgan a'i Feibl oedd grwndwal Cymraeg Elystan. Fe'i breintiwyd â chof rhyfeddol: gallai hau dyfyniadau'n ddiymdrech ac i bwrpas yn well na neb a adnabûm erioed. Yr oedd tair prif ffynhonnell i'w gronfa helaeth o ddyfyniadau: y Beibl, y llyfr emynau, a gweithiau beirdd gorau Cymru o'r cywyddwyr ymlaen.



Yr oedd Elystan yn ymneilltuwr o hil gerdd. Ei hen-hen-dadcu, John Watkins, Brysgaga, a roes y tir i adeiladu Capel y Garn arno yn 1833. Yr oedd ei hen-dadcu, y Parch. Enoch Watkin James (1818–94), yn weinidog ar eglwysi'r Borth a Dôl-y-bont a etholwyd yn Llywydd Cymdeithasfa'r De, gŵr chwedlonol o amryddawn: gweinidog, ffermwr, cynghorydd sir, ynad heddwch, pysgotwr, beirniad ceffylau, saethwr, englynwr, a hefyd meddyg esgyrn o fri! Ar ochr ei dad perthynai Elystan i olyniaeth o flaenoriaid yn y Garn a ymestynnai'n ddi-dor dros bedair neu bum cenhedlaeth. Pan fu farw, yr oedd Elystan wedi bod yn flaenor yn y Garn am hanner can mlynedd: fe'i hetholwyd yn Ionawr 1971 ac fe wasanaethodd dan bum gweinidog gwahanol. Bu'n eithriadol o ffyddlon i'r achos, fel ei briod hoff, Alwen, pan oedd hithau'n fyw: yn ystod ei gyfnod fel barnwr – galwedigaeth a olygai gryn deithio heb sôn am faich a chyfrifoldeb ei ddyletswyddau – sonnir ei fod yn dychwelyd bob penwythnos i gymryd ei le yn ei gornel yn y Sêt Fawr bob Sul. Llefarai bob amser gyda graen ac awdurdod, boed yn cyhoeddi fel Blaenor y Mis neu pan gâi gyfle i ledu ei adenydd yn ddeallusol ac yn ddiwinyddol, megis mewn cyfarfodydd sefydlu gweinidogion neu gyfarfodydd ymadael: ef, yn rhinwedd ei allu a'i urddas a'i huodledd digymar oedd y dewis naturiol ac anorfod i lefaru ar ran yr eglwys. Dim ond yn ystod ei flynyddoedd olaf y cefais y profiad o'i gwmni yng nghyfarfodydd blaenoriaid y Garn. Buan y gwelais barch enfawr fy nghyd-flaenoriaid, mwy profiadol na mi, i'w gyngor, ei graffter, a'i ddoethineb mawr. Yr oedd achos y Garn yn hollbwysig iddo: ys dywedodd yn ei hunangofiant *Elystan: Atgofion Oes* (2012), 'Bu Eglwys y Garn yn aelwyd gynnes imi er pan oeddwn yn blentyn'. Teimlai aelodau'r Garn hwythau gynhesrwydd mawr ato yntau: bydd hiraeth a bwlch rhwth ar ei ôl.

Heb os, yr oedd Elystan – pleidiwr dyfal, taer a galluog dros Gymru fel endid gwleidyddol – yn genedlgarwr mawr. Ac, wrth gwrs, fe arddelai sosialaeth. Ond sosialydd o fath arbennig ydoedd. Nid yn athroniaeth Karl Marx y gwreiddiwyd ei sosialaeth, ond yn radicaliaeth ei fagwraeth ymneilltuol a'r gwerthoedd gwâr a fynegwyd yn y Bregeth ar y Mynydd ac efengyl Crist. Dyna brif darddle ei ddynoliaeth fawr a theimladwy. Cofiwn amdano: cenedlgarwr, sosialydd, Cristion, a bonheddwr mwyn a hynaws y bu'n fraint ei adnabod. Estynnwn ein cydymdeimlad at ei blant, Eleri ac Owain, a'u teuluoedd – a fu mor wiw eu gofal amdano – yn eu colled a'u profedigaeth.

*Gruffydd Aled Williams*

## Gardd Flodau Orau Cymru

Llongyfarchiadau calonnog i Carys Briddon, Tre'r-ddôl, ar ennill categori'r Ardd Flodau Orau yng nghystadleuaeth y rhaglen *Garddio a Mwy* (S4C). Dyma ychydig o hanes yr ardd gan Carys:

Etifeddais fy hoffter o flodau a garddio oddi wrth Mam a Mam-gu. Pan oeddwn yn blentyn, roedd gennyf ardd fach fy hunan yn ymyl y tŷ a rhoddai bleser mawr i mi wrth ei chwynnu a thyfu blodau. Felly, rwyf wedi bod yn garddio erioed, ond nid wyf yn tyfu llysiau, dim ond tyfu blodau.

Ers i mi ymddeol bedair blynedd ar ddeg yn ôl rwy'n treulio llawer iawn o amser yn yr ardd, ac mae'r border blodau wedi mynd yn fwy ac yn fwy, a'r gŵr yn cwyno fod maint y lawnt wedi lleihau'n sylweddol! Pob math o flodau lluosflwydd sydd yn yr ardd gan fwyaf gan fod y rheiny'n blodeuo o ddechrau'r haf hyd at yr hydref, a gan eu bod yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn mae'n golygu fod llai o chwynnu i'w wneud. Rwyf wrth fy modd yn cerdded o amgylch yr ardd gan fod rhywbeth newydd i'w weld bob dydd − pan fo un planhigyn yn dechrau blodeuo mae'n cymryd lle planhigyn arall sydd ar fin darfod am y tymor. Hefyd, mae'n hyfryd gweld y lliwiau yn newid o dymor i dymor, gyda blodau glas, melyn a phinc gan amlaf yn y gwanwyn yn newid wedyn i liwiau cynnes fel coch, oren a phorffor ar ddiwedd yr haf a dechrau'r hydref.

Er i ni gael tywydd oer a rhewllyd ym mis Mai eleni gwnaeth pob peth yn yr ardd ffynnu wedi hynny, a'r delia wedi blodeuo'n arbennig o dda. Er y gwaith caled, mae'r blodau a'u gwahanol liwiau wedi llenwi'r borderi drwy'r haf, yn ogystal ag yn y basgedi crog, y bocsys ffenestri a'r potiau sydd ymhob man! Nid oes dim yn rhoi mwy o bleser i mi nag eistedd allan yn yr ardd yn edrych ar y cyfan, gwrando ar yr adar yn canu, a sylwi ar y pryfed, y gwenyn a ieir bach yr haf yn hedfan o un blodyn i'r llall – byd natur ar ei orau.

*Carys Briddon*



Carys Briddon a thlws 'Yr Ardd Flodau Orau'

**Yn eisiau**

**Gofalwr i Ysgoldy Bethlehem, Llandre**

**I ddechrau mor fuan â phosib**

**Am fanylion pellach, cysylltwch ag**

**Alan Wynne Jones**

**(alan.jones212@btinternet.com)**

# Capel y Garn

## Hydref

| | |
|---|---|
| 3 | Cydaddoli yng Nghapel Noddfa |
| 6 | Cymdeithas Chwiorydd y Garn am 2.30 o'r gloch<br>Cwrdd Diolchgarwch dan ofal Llinos Dafis |
| 10 | Y Parch Judith Morris |
| 15 | Cymdeithas Lenyddol y Garn<br>'Y Gair tu ôl i'r Gân' – noson yng nghwmni Robat Arwyn am 7.30 o'r gloch, dros Zoom |
| 17 | Oedfa gymun dan arweiniad y Gweinidog<br>am 10 o'r gloch ym Methlehem, Llandre |
| 24 | Gwasanaeth Diolchgarwch teuluol<br>dan arweiniad y Gweinidog |
| 31 | Oedfa dan ofal Cynog Dafis |

* * * * *

Bydd yr oedfaon yn cael eu cynnal yng Nghapel y Garn – hyd y gellir trefnu ar hyn o bryd, ac eithrio'r Suliau pan fyddwn yn cydaddoli yng Nghapel Noddfa ac un oedfa ym Methlehem.

Byddwn yn parhau i ddilyn y canllawiau perthnasol o ran Covid-19, a gofynnir yn garedig i chi beidio â mynychu'r gwasanaethau os bydd gennych unrhyw symptom o'r feirws (e.e. tymheredd uchel, peswch newydd a pharhaus, colli synnwyr blasu neu arogli &c). Mae hi'n dal yn ofynnol inni wisgo mwgwd bob amser yn ein gwasanaethau, yn ogystal â chadw pellter oddi wrth ein gilydd. Mae diheintydd hefyd ar gael ar gyfer diheintio eich dwylo.

Am fanylion pellach, gweler: https://www.cytun.co.uk/hafan/covid-19-papur-briffio/

Diolch am eich cydweithrediad – ac edrychwn ymlaen at gael eich cwmni.

## Tachwedd

| | |
|---|---|
| 7 | Gweinidog |
| 14 | Parch Ddr John Tudno Williams |
| 19 | Cymdeithas Lenyddol y Garn<br>'Menyw Newyddion' – Gwenllian Grigg<br>am 7.30 o'r gloch, dros Zoom |
| 21 | Gweinidog |
| 28 | Gweinidog |

## Rhagfyr

| | |
|---|---|
| 5 | Cydaddoli yng Nghapel Noddfa |
| 10 | Cymdeithas Lenyddol y Garn<br>'Dathlu'r Nadolig'<br>yng nghwmni Arfon Gwilym a Sioned Webb<br>am 7.30 o'r gloch, dros Zoom |
| 12 | Dr Rhidian Griffiths |
| 19 | Gwasanaeth Nadolig teuluol am 10 o'r gloch<br>Gwasanaeth y Gair a'r Geiriau am 5 o'r gloch |
| 25 | Gwasanaeth ar fore'r Nadolig am 9 o'r gloch<br>dan arweiniad y Gweinidog |
| 26 | Dim oedfa |

Gweler hefyd: www.capelygarn.org
Tudalen Facebook: Capel y Garn
Sianel YouTube: Capel y Garn
Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

# Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth



Penderfynwyd ailgychwyn gweithgareddau Cymdeithas y Chwiorydd eleni ar ôl inni fethu cwrdd yn ystod y flwyddyn a hanner ddiwethaf.

I ddechrau'r tymor, aeth deg o'r aelodau i Grefftau Pennau, Rhydypennau, brynhawn Mawrth, 14 Medi, i fwynhau te prynhawn hyfryd.

Estynnodd Eiriona Metcalfe groeso i bawb, gan ddweud mor braf oedd cael cwrdd â'n gilydd unwaith eto. Bu sgwrsio brwd yn ystod y prynhawn a phawb wedi mwynhau'r achlysur, gan obeithio bydd modd i ni gynnal cyfarfodydd yn ddidrafferth yn ystod y misoedd nesaf.

*Carys Briddon*

## Cymdeithas Chwiorydd y Garn



Prynhawn Mercher, 1 Medi, daeth aelodau o Gymdeithas y Chwiorydd at ei gilydd i gael paned a sgwrs yng Nghrefftau Pennau. Cafwyd cyfle i brofi cacen ben-blwydd Nans Morgan ac i ddymuno pen-blwydd hapus iddi, gan ei bod wedi dathlu pen-blwydd arbennig ychydig cyn hynny.

Bydd y cyfarfod nesaf ar ffurf Cwrdd Diolchgarwch, dan ofal Llinos Dafis, yng Nghapel y Garn bnawn Mercher, 6 Hydref, am 2.30 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb – yn ddynion a merched!

**Llogi adeiladau'r Garn a Bethlehem**

**Ym mhwyllgor swyddogion y Garn, a gynhaliwyd ar 7 Medi, penderfynwyd y dylai pob cais i logi'r adeiladau uchod gael ei wirio gan swyddogion y capel cyn y rhoddir caniatâd. Bydd disgwyl i bob unigolyn/mudiad gwblhau asesiad risg i sicrhau y cedwir at ganllawiau Covid-19 Llywodraeth Cymru.**

# Capel y Garn

## Llongyfarchiadau:

i Vernon Jones ar gyflawni hanner can mlynedd fel blaenor yng Nghapel y Garn – a diolch am wasanaeth oes o lafur diflino;

i Shân a Mike Hayward ar ddathlu eu priodas ddiemwnt ar 16 Medi;

i Glyn a Gillian Saunders Jones ac Wynne Melville a Linda Jones ar ddathlu eu priodas aur, y ddwy briodas ar 14 Awst;

i Llinos a Cynog Dafis ar ddod yn hen fam-gu a hen dad-cu i Nikola Idris, mab bach Ainhoa ac Aleksa;

i Elina Davies ar ddod yn hen fam-gu i Celyn, merch fach Ian a Kate;

i Carwyn Lloyd Jones ar ei gampweithiau ar raglen S4C *Hen Dŷ Newydd.*

## Pob dymuniad da:

i Llio Penri ar ei hymddeoliad o'i swydd fel Pennaeth yr Adran Gerdd yn Ysgol Bro Hyddgen, Machynlleth;

i Nest Gwilym fydd yn symud i fyw i gartre'r teulu yng Nhregerddan,

i Ceri Wynne Jones yn ei chartref newydd ar Ffordd Clarach;

i rai o'n haelodau sydd wedi bod mewn ysbyty yn ddiweddar neu sy'n anhwylus ar hyn o bryd.

## Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf:

â Nest, Lowri, Non a'u teuloedd ar farwolaeth eu mam, Gwenda Edwards;

ag Eleri, Owain a'u teuluoedd ar farwolaeth eu tad, Yr Arglwydd Elystan-Morgan;

â Noel a'r teulu ym marwolaeth ei briod, Maureen Morgan.

## Cymdeithas Lenyddol y Garn

Yn ystod misoedd Hydref, Tachwedd a Rhagfyr, yn dilyn llwyddiant cyfarfodydd y llynedd, bydd y Gymdeithas yn cyfarfod dros Zoom am 7.30 o'r gloch. Mae croeso i unrhyw un ymuno, yn rhad ac am ddim o glydwch eu cartrefi – cysylltwch â'r ysgrifennydd am fanylion.

| | |
|---|---|
| 15 Hydref | 'Y Gair tu ôl i'r Gân' –<br>noson yng nghwmni Robat Arwyn |
| 19 Tachwedd | 'Menyw Newyddion' – Gwenllian Grigg |
| 10 Rhagfyr | 'Dathlu'r Nadolig'<br>gydag Arfon Gwilym a Sioned Webb |


**Pwyllgor 2021–2022**

Llywydd: Y Parch Ddr Watcyn James
Cadeirydd: Mrs Elizabeth Lloyd Jones
Is-gadeirydd:
Ysgrifennydd: Mrs Marian B Hughes
Trysorydd: Mrs Bet Evans

Trefnyddion y Bwyd: Mrs Margaret Rees,
Mrs Elizabeth Lloyd Jones, Mrs Bet Evans

Aelodau eraill o'r pwyllgor:
Mrs Llinos Dafis
Mr Gwynant Evans
Mr Gwynfryn Evans
Mrs Mair Jenkins
Mr Alan Wynne Jones
Mr Gareth William Jones
Mr Vernon Jones
Ms Anwen Pierce
Mrs Mary Thomas
Mrs Gweneira Williams

## Malala Yousafzai




Â siôl dros ei phen, gwên ar ei hwyneb a'i llaw yn codi mewn diolch a ffarwél, aeth Malala Yousafzai allan o Ysbyty'r Frenhines Elizabeth ym Mirmingham ar ôl derbyn llawdriniaeth arbenigol wedi iddi gael ei saethu yn ei phen gan y Taliban ym Mhacistan. A hithau ddim ond yn bymtheg oed, ei throsedd oedd iddi ymgyrchu dros addysg i ferched.

Mae'n amhosibl i ni ddeall agwedd mor gul a gormesol sy'n barod i ladd merched ifanc yn hytrach na chaniatáu iddynt fynd i'r ysgol. Ddiwrnod ynghynt cyhoeddwyd bod gostyngiad o dros 11% yn nifer y rhai yng Nghymru sy'n ceisio lle mewn prifysgolion, a hynny am fod y costau'n rhy uchel. Ond mae addysg yn hawl dynol sylfaenol gan fod ein twf a'n datblygiad fel pobl yn dibynnu ar gael ein dysgu, ar dderbyn gwybodaeth a'n helpu i ddeall y byd o'n cwmpas.
Mae stiwdio'r BBC yma yn Wrecsam yn un o adeiladau Prifysgol Glyndŵr. Arwyddair y Brifysgol yw 'Hyder trwy Addysg'. Magu hyder a wnawn wrth ddysgu – tyfu ac aeddfedu ac ymgyrraedd at ein potensial fel bodau dynol. Wrth gwrs, dydy addysg ddim yn digwydd mewn ysgol a choleg yn unig.


Mae'r addysg a gawn yn ein cartrefi ac o fewn ein teuluoedd, lle dysgwn ni foesgarwch, chwaeth a gwerthoedd moesol, yn rhan greiddiol o'n haddysg. Yna mae'r addysg gawn ni yn ysgol profiad wrth inni ddysgu dygymod â phrofiadau amrywiol bywyd – y melys a'r chwerw. Mae ysgol ffydd wedyn, lle down i amgyffred yr ysbrydol, i ddysgu gweddïo ac adnabod Duw.

Yn wahanol i addysg ffurfiol, dyma ysgolion yr ydym ni'n ddisgyblion ynddynt ar hyd ein hoes. Cychwyn ar antur dysg y mae Malala. Gobeithio y caiff hi a'i ffrindiau ym Mhacistan, a ninnau gyda nhw, y rhyddid i ddal ati i ddysgu ac i dyfu mewn deall a hyder.

*10 Ionawr 2013*

*Un o fyfyrdodau'r gyfrol* Gwerth y Funud Dawel*, casgliad cynhwysfawr o 150 o fyfyrdodau gwreiddiol o waith Elfed ap Nefydd Roberts a baratowyd ganddo dros gyfnod o ddeng mlynedd ar hugain. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair; 328 tud, pris £12.99.*

## Ymbil dros y Byd




Arglwydd ein Duw,
yr wyt ti wedi'n dysgu i weddïo
dros bawb;
gwrando ni'n awr yn ein hymbiliau
dros y byd
a thros bawb mewn angen.

Gweddïwn dros holl genhedloedd
y ddaear
a thros deulu dyn ym mhob man:
Rho heddwch rhwng pobloedd
ac arwain y byd o afael gormes
ac ysbryd rhyfelgar.

Gweddïwn dros ein gwlad,
a thros bawb sydd yn arwain ac yn llywodraethu:
Rho iddynt oleuni a doethineb
i ddefnyddio'u doniau er lles cymdeithas.

Gweddïwn dros ein teuluoedd a'n cartrefi,
dros ein hanwyliaid a'n ffrindiau oll:
Rho di dy fendith iddynt a chysgoda drostynt.

Gweddïwn dros y claf, y gwan a'r amddifad,
yn enwedig y rhai y gwyddom ni amdanynt:
Rho dy gymorth iddynt
a gad iddynt brofi dy allu iachaol.

Gweddïwn dros dy Eglwys
a thros gynulleidfaoedd dy bobl ym mhob man:
Gad i'r rhai sy'n caru'n Gwaredwr ei garu'n fwy
ac ymroi i'w wasanaethu a'i glodfori.  Amen.

*Gweddi gan Elfed ap Nefydd Roberts o'r gyfrol* Cymer fy Munudau*, sy'n cynnwys dros 400 o'i weddïau gwreiddiol. Cyhoeddwyd gan Gyhoeddiadau'r Gair; 529 tud, pris £16.99.*

## Gwenda Mair Edwards



Merch Harri ac Olwen Williams, oedd Gwenda, ac fe'i ganwyd, fel y byddai'n falch o ddweud, yn Nhywyn, Meirionnydd, pan oedd ei thad yn weinidog yno, yn hŷn o dair mlynedd na'i hannwyl chwaer, Siân. Tua chwech oed oedd hi pan symudodd y teulu i'r Waunfawr a thua 13 oed pan symudwyd wedyn i Fangor. Roedd Gwenda yn mawrhau'r cysylltiadau daearyddol yna i gyd, ond yn fwy fyth y cysylltiadau teuluol: y gwreiddiau yn Sir Fôn a'r teuluoedd yn Lerpwl, Seven Sisters a Llundain, lle bydden nhw ymweld a threulio cyfnodau yn ystod gwyliau haf, a'r berthynas â'r cefnderwyr a'r cyfnitherod yn un glòs a chynnes. Yn eu tro mi fyddai'r teuluoedd yn ymweld â nhw, ac aelwydydd Brynteg a Phenygeulan yn fwrlwm o hwyl wrth grwydro traethau Pen Llŷn a Sir Fôn, ac roedd hoffter o'r llecynnau hynny wedi aros gyda Gwenda ar hyd y blynyddoedd.

Roedd wedi rhoi ei bryd ar nyrsio yn gynnar iawn, ac fe gychwynnodd ei hyfforddiant yn y 'Royal' yn Lerpwl, cyn mynd ymlaen wedyn i hyfforddi fel bydwraig yn ysbyty Sully. Erbyn hyn roedd y teulu yn Aberystwyth a'i thad yn un o Athrawon y Coleg Diwinyddol, ac fe ddychwelodd Gwenda i Aberystwyth ac i'r hen ysbyty yn North Road, cyn i Bronglais agor yn 1966.

Roedd dylanwad yr aelwyd yn drwm iawn arni wrth gwrs, mewn mwy nag un ystyr, ac ar un cyfnod roedd ei bryd ar fynd i'r maes cenhadol. Efallai fod hynny'n un rheswm pam yr aeth i Gynhadledd Genhadol y Pasg, yn y Barri. Roedd hi'n gynhadledd bwysig a dylanwadol iawn yn ei dydd, yn cael cefnogaeth gan lawer o bobl ifanc yn eu harddegau hwyr a'u hugeiniau cynnar. Un o fynychwyr cyson y gynhadledd oedd W. J. Edwards, ac yno y cychwynnodd perthynas Gwenda a Bill. Priododd y ddau yn Siloh, Aberystwyth, ar 1 Gorffennaf 1967, a chartrefu yng Ngarthgwyn, Llanuwchllyn, a bu Gwenda'n nyrsio yn adran famolaeth Ysbyty Dolgellau tan geni Nest. Rhoddodd y gorau i'w gwaith proffesiynol am 18 mlynedd i fagu'r merched, cyn dychwelyd am gyfnod cyn symud i Gaerfyrddin. Rwy'n pwysleisio 'gwaith proffesiynol' oherwydd fuodd Gwenda erioed heb waith ar hyd y blynyddoedd – a fuodd hi erioed yn segur chwaith.

Wrth feddwl amdani, geiriau o'r Rhufeiniaid oedd yn dod i'r meddwl yn syth. Ar ddiwedd y llythyr mae Paul yn cyflwyno gwraig o'r enw Phebe i'r eglwys. Ac meddai: 'Derbyniwch hi yn enw'r Arglwydd, mewn modd teilwng o'r saint, a byddwch yn gefn iddi ym mhob peth y gall fod arni angen eich cymorth, oherwydd y mae hithau wedi bod yn gefn i lawer, ac i mi yn bersonol.'

Dyna i chi deyrnged i unrhyw un: bod yn gefn i arall. A dyna Gwenda i mi.

Bu'n gefn i Bill, i sicrhau rhwydd hynt iddo gyflawni ei weinidogaeth a dilyn ei ystod eang o ddiddordebau. A Bill, oedd bron, bron â bod mor ffrwydrol a diamynedd ei natur ag ydw i, yn dra ffodus o anian hynaws, tawel a diymhongar Gwenda. Roedd yna ryw dawelwch, rhyw dangnefedd yn perthyn iddi. Roeddech chi'n ei synhwyro a'i deimlo yn syth o fod yn ei chwmni. Roedd hi'n wraig o argyhoeddiadau, egwyddorion a gwerthoedd clir iawn. Ond byddai Gwenda'n gallu cyfleu'r cyfan â rhyw gadernid tawel.

Bu'n gefn i'w merched ar hyd y blynyddoedd – nid jyst blynyddoedd eu magwraeth yng Ngarthgwyn, ond wedi iddynt adael y nyth a dilyn eu gyrfaoedd. Ac nid yn gefn yn unig, ond yn ffrind da, ac yn un a rannodd ei diwylliant cyfoethog: ei hoffter o gerddoriaeth a chanu, o'r theatr ac actio a bale. Ac mae Erin, er efallai ddim yn llawn ddeall hynny hyd yma, wedi profi o'r un cariad a chyfeillgarwch. Roedd Nain yn ffrind da, diogel. Meddai Tudur Dylan amdani:

Parha, fel y Gwenda gynt – yn darian
i dair rhag bob helynt.
Arhosol ymhob croeswynt
yn graig i'w gŵr rhag y gwynt.

Bu'n gefn i'r eglwys a'r gymuned yn Llanuwchllyn. Roedd yn aelod brwd a ffyddlon o Gôr Merched Uwchllyn a Chymdeithas Gorawl Llanuwchllyn; llywydd cyntaf cangen Merched y Wawr; cynorthwyydd yn yr Ysgol Feithrin; aelod o'r Gymdeithas Ddiwylliadol a chwmni drama Emyr a Liz Puw. A dyna lle cafodd bleser a mwynhad, a chyfle – a defnyddio'r idiom Saesneg – 'i ollwng ei gwallt i lawr'! Rywsut roedd yn berson annhebygol i fod ar lwyfan yn 'chwarae rhan', ond fe gafodd bleser a hwyl ryfeddol o wneud hynny – a llwyddiant yn Steddfod Machynlleth.

Aeth ati i fwrw iddi yr un mor barod a brwd yng Nghapel y Priordy ar ôl symud i Gaerfyrddin: Cymdeithas y Chwiorydd; Merched y Wawr; Telynau Tywi; Papur Llafar y Deillion; Siop y Pentan. Ac wedi dychwelyd i Bow Street, fu yna ddim llacio ar yr ymroddiad yna i'r 'pethe'.

A dyfynnu Paul eto o'r Philipiaid: 'Bellach, gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn … a bydd Duw'r tangnefedd gyda chwi.'

Dyna'r pethe oedd yn cyfri i Gwenda, a dyna'r pethau yr ymrodd iddyn nhw ar hyd ei hoes, a thrwy ein galar a'n chwithdod a'n hiraeth, lle i ddiolch sydd gyda ni am un a wnaeth, yng ngeiriau'r Iesu, 'yr hyn a allodd'.

*Talfyriad o deyrnged y Parch Hywel Wyn Richards*

## Maureen Morgan

Cafodd Maureen ei magu yn Siop Aberdŵr, Tregaron, a doedd y siop honno byth yn cau ('open all hours', go iawn). Roedd y siop groser yn sownd wrth y tŷ yn Stryd y Capel ac roedd Capel Bwlchgwynt yn gwbwl ganolog i fywyd y teulu; etholwyd ei thad yn flaenor yn y capel. Yn ogystal â rhedeg y siop, roedd John hefyd yn bostmon yn ystod y dydd. A gyda'r nos fe'i gwelid yn gyson yn cludo bocseidi o fwydydd ar ei ysgwydd ar hyd strydoedd y dre i gynnal teuluoedd Tregaron, a hynny flynyddoedd cyn i neb freuddwydio am Amazon na phrynu ar lein. Roedd rhieni Maureen, Mat a John, yn gwpwl siriol ac yn adnabyddus iawn i holl bobol Tregaron – yn gefnogol ac yn asgwrn cefn i bob cymdeithas. Roedd Jean ei chwaer, Maureen a Philip ei brawd yn naturiol wedi'u trwytho yn yr un gwerthoedd. Fe brofais i o'u caredigrwydd ar sawl achlysur, a dod i adnabod Maureen yn yr ysgol.

Gyferbyn â'r siop roedd Walter Morgan yn byw – pregethwr lleyg a theiliwr wrth ei grefft. Roedd yn ddyn o argyhoeddiad crefyddol dwfn a daeth dan ddylanwad Diwygiad Evan Roberts yn 1904/1905. Treuliodd gyfnod gyda Gwenallt yng ngharchar Wormwood Scrubs fel gwrthwynebydd cydwybodol. Roedd parch mawr iddo ac roedd ei ddylanwad yn fawr ar deulu Siop Aberdŵr. Ar adegau, fe allai safbwyntiau Walter Morgan ar foesoldeb yr oes fod yn fwrn ar ysfa rhywun byrlymus fel Maureen, a hithau yn ei harddegau. Roedd ei hasbri hi i fynd i ddawnsio yn y Neuadd neu fynd ar drip i siopa neu wyliau'n gyffrous, ond eto roedd yna gyd-ddeall a pharch oedd yn pontio dwy genhedlaeth wahanol iawn.

Er i Maureen a Noel ymgartrefu'n hapus mewn ardaloedd gwahanol, wnaeth hi erioed adael Tregaron. Roedd stamp Tregaron arni. Er i Philip a Margaret a'r teulu a Jean a George wneud eu cartrefi maes o law yn Llundain, un o'r pethau yr oedd Maureen yn fwyaf balch ohono oedd bod Catrin, ei nith a gafodd ei magu yn Llundain, yn siarad Cymraeg rhugl gydag acen Tregaron.

Wedi ffarwelio â dyddiau hapus Ysgol Uwchradd Tregaron (Ysgol Henry Richard erbyn hyn), aethom ein dwy i Goleg y Drindod, Caerfyrddin, i hyfforddi i fod yn athrawon wrth draed Miss Norah Isaac. Tipyn o brofiad a chyfnod o ddarganfod llawer o ffrindiau oes. Bu Mo wedyn yn dysgu yn yr Ysgol Gymraeg yn Aberystwyth, ac roedd cyfnod Miss Jones Fach yn hapus iawn yno, gyda llawer o dynnu coes a chydweithio hapus ymhlith y staff. Manteisiodd ysgolion Sir Benfro hefyd ar ei thalent pan fu hi a Noel yn byw yn y sir. Clywais lawer am ysgolion Penffordd a Llanddewi Felfre, ac er ei bod mewn poen, cefais wên wrth hel atgofion am y cyfnod hwn gyda Mo yn ddiweddar.



Priodwyd Noel a Maureen pan oedd hi'n athrawes yn yr Ysgol Gymraeg a Noel yn gweithio ym Manc y Nat West Aberystwyth. Fe gawson nhw bron 43 mlynedd o fywyd priodasol hapus. Roedd Jan a Helen yn rhan bwysig o'i bywyd, ac roedd Maureen yn falch iawn ohonyn nhw. Bu'r ddwy o gymorth mawr yn ystod cyfnod ei salwch.

Wrth ddychwelyd i ardal Aberystwyth i fyw, cychwynnodd ar swydd yn hyfforddi darpar athrawon. Roedd Ina Tudno Williams wedi gweld y ddawn ynddi a bu'n pwyso arni i ddarlithio i'r myfyrwyr. Doedd Mo ddim yn gwbwl fodlon gan mai cymhwyster Coleg Hyfforddi oedd ganddi. Aeth ati, gyda chefnogaeth Noel, i weithio ac ennill gradd MEd. Bu'r cyfnod yma ymysg y myfyrwyr yn un hapus iawn iddi, ac Ina a hithau'n cydweithio'n dda.

Cymerodd y darpar athrawon hyn o dan ei hadain, yn eu cysuro a'u sbarduno wrth osod safonau uchel i'w cyrraedd. Gwae'r myfyriwr nad oedd wedi llanw ei lyfr nodiadau ymarfer dysgu yn gywir ar gyfer ei hymweliad. Byddai'n dod ar draws 'y cywion' hyn, fel y'u gelwid yn aml, ar hyd a lled Cymru wedi iddi ymddeol. Byddai wrth ei bodd – yn sgwrsio, holi hanes y teuluoedd a'r gyrfaoedd ac yn y blaen. Os byddai'r teulu gyda hi, byddai'r aros yn boenus o hir wrth i'r sgwrs fynd yn ei blaen. Sawl tro, byddent yn bygwth rhoi bag papur brown dros ei phen fel na fyddai'n gweld yr holl ffrindiau oedd ganddi – chwerthin mawr oedd yr ymateb.


Byddai Maureen a Noel yn mwynhau teithio, ac fe gawson nhw gyfle i ymweld â llawer o ddinasoedd a gwledydd amrywiol. Roedd y ddau'n mwynhau cymdeithasu gyda theulu a ffrindiau, ac yn weithgar gyda llawer o gymdeithasau ac achosion da. Roedd y Clwb Chwarter yn enghraifft arbennig!

Cafodd bob gofal gan Noel, y teulu a ffrindiau, gan enwi dwy yn arbennig, sef Jean Davies ei chymdoges, sydd, gyda llaw, yn cofio parti pen-blwydd cyntaf Maureen, a Julie Read, ffrind triw a sicrhaodd fod ewinedd Mo yn smart hyd y diwedd – rhywbeth oedd yn bwysig iddi. Bu Maureen yn ffrind da i ni i gyd. Gallem ddibynnu arni ym mhob sefyllfa, a byddwn yn cofio'i charedigrwydd, ei gwên radlon a'i hiwmor diflino, am byth.

Fel merch o Dregaron, roedd hi'n edrych ymlaen yn fawr at gael dathlu'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhregaron. Gresyn na fydd hi, ac eraill tebyg iddi hi, ddim yno. Felly, pan ddaw'r Brifwyl i Geredigion, cofiwn, bob un ohonom, godi gwydr er cof am Maureen.

*Linda Jones*

*Pantycelyn a'n Picil Ni Heddiw* yw teitl cyfrol newydd gan Cynog Dafis. Fe'i cyhoeddwyd gan wasg y Lolfa, a'i phris yw £4.99. Yn y gyfrol hon, mae'r awdur yn cyflwyno'i ddamcaniaeth fod angen ailddyfeisio Cristnogaeth ar gyfer bywyd modern yn yr 21ain ganrif. Mae'n defnyddio gwaith William Williams, Pantycelyn, a'r traddodiad crefyddol a etifeddodd y Gymru Gymraeg yn fan cychwyn trafodaeth ynghylch Cristnogaeth heddiw ac yfory. Dywed Cynog:




'Rhaid i ni sylweddoli bod angen mwy o ostyngeiddrwydd a diolchgarwch am yr hyn sydd ganddom ac mai rhodd yw popeth sy'n eiddo i ni. Trwy ras yr ydyn ni'n cael y fraint o gael byw. Gall Cristnogaeth feithrin y ffordd yma o weld y byd a byw ynddo. Mae angen i ni ailddysgu rhyfeddu at amrywioldeb natur, fel y gwnaeth Pantycelyn. Ac fel y gwnaeth Pantycelyn, bydd codi'n golygon tua'r nefoedd, tua phellterau'r cosmos, yn peri inni, yng ngeiriau un o'i gymrodyr, "synnu fyth ar synnu" wrth syllu ar yr eangderau a cheisio dirnad y dirgelwch eithaf sydd y tu hwnt iddynt. Trwy ddefodau megis ymdawelu, gweddïo, cydganu, rhannu bara a gwin y mae Cristnogaeth yn meithrin yr agwedd meddwl yna. Dichon y byddai addasu ac ychwanegu at y defodau cyfarwydd hynny yn pwysleisio pa mor berthnasol ydyn nhw i anghenion ein cyfnod ni.'

**Swyddogion yr Ofalaeth**

Cadeirydd: Ina Tudno Williams, Capel Seion
Ysgrifennydd: Gruffydd Aled Williams,
Bronafon, Dolau, Bow Street, Aberystwyth, Ceredigion, SY24 5AE
(ffôn: 01970 820664; ebost: gawilliams1@btinternet.com)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **5 Rhagfyr** i'r golygydd:
Marian B Hughes, 14 Maes y Garn, Bow Street
01970 828662; marian_hughes@btinternet.com